

**2014 Rhif 1515 (Cy. 156)**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

Gorchymyn Traffordd yr M4  
(Cyffordd 23a, Magwyr, Sir Fynwy  
a Chyffordd 25, Caerllion,  
Casnewydd), Traffordd yr M48  
(Cyffordd 2, Cas-gwent, Sir  
Fynwy), Cefnffordd yr A449  
(Coldra, Casnewydd) a Chefnffordd  
yr A40 (Rhaglan, Sir Fynwy)  
(Gwaharddiad a Chyfyngiadau  
Traffig Dros Dro) 2014

*Gwnaed* 4 Mehefin 2014

*Yn dod i rym* 8 Mehefin 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4 a'r M48) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd") a Chefnffordd Casnewydd i Gaerwrangon (yr A449 a'r A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd gael ei wahardd a'i gyfyngu oherwydd y tebygolrwydd o perygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

- 
- (1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

## Enwi, dehongli a chychwyn

1.—(1) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 8 Mehefin 2014. Ei enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 23a, Magwyr, Sir Fynwy a Chyffordd 25, Caerllion, Casnewydd), Traffordd yr M48 (Cyffordd 2, Cas-gwent, Sir Fynwy), Cefnffordd yr A449 (Coldra, Casnewydd) a Chefnffordd yr A40 (Rhaglan, Sir Fynwy) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2014.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn ac ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1, 2, 3 a 4 i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod gwahardd a chyfyngu" ("*prohibition and restriction period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 07:00 o'r gloch ar 8 Mehefin 2014 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

## Gwaharddiad a chyfyngiadau

2. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod gwahardd a chyfyngu, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru yn y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod gwahardd a chyfyngu, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder o fwy na 40 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod gwahardd a chyfyngu, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder o fwy na 30 milltir yr awr yn y darnau o'r draffordd a'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod gwahardd a chyfyngu, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder o fwy na 20 milltir yr awr yn y darnau o'r draffordd a'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

## **Ataliadau**

6. Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974(1), i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4 drwy hyn yn cael eu hatal yn ystod yr adegau y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

## **Cymhwyso**

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, a 6 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwahardd a'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

## **Parhad y Gorchymyn hwn**

8. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 6 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi,  
Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion  
Cymru

Dyddiedig y 4 Mehefin 2014

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth  
Cymru

---

(1)

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

### GWAHARDD CERBYDAU

Hyd cyfan cilfan yr A449 tua'r de, o'r man lle mae'n ymwahanu oddi wrth y brif gerbyttfordd tua'r de, 5.7 cilometr i'r gogledd o Gyffordd 24 yr M4 (Cylchfan Coldra) hyd at y man lle mae'n ymgysylltu â'r brif gerbyttfordd tua'r de.

## ATODLEN 2

### TERFYN CYFLYMDER 40 MYA

- (i) Y darn hwnnw o gerbyttfordd yr A449 tua'r de, o bwynt 6.9 cilometr i'r gogledd o Gyffordd 24 yr M4 (Cylchfan Coldra) am bellter o 900 metr tua'r de hyd at bwynt 252 metr i'r gogledd o'r man lle mae'r gilfan tua'r de yn ymwahanu oddi wrth y brif gerbyttfordd tua'r de.
- (ii) Y darn hwnnw o gerbyttfordd yr A449 tua'r de, o bwynt 5.7 cilometr i'r gogledd o Gyffordd 24 yr M4 (Cylchfan Coldra) am bellter o 448 metr tua'r de hyd at bwynt 63 metr i'r de o'r man lle mae'r gilfan tua'r de yn ymgysylltu â'r brif gerbyttfordd tua'r de.
- (iii) Y darn hwnnw o gerbyttfordd yr A40 tua'r gorllewin, o bwynt 947 metr i'r dwyrain o Gylchfan Gorllewin-o-Raglan yr A40 am bellter o 349 metr i gyfeiriad y gorllewin.
- (iv) Y darn hwnnw o gerbyttfordd yr A40 tua'r dwyrain o bwynt 147 metr i'r gorllewin o Gylchfan Gorllewin-o-Raglan yr A40 am bellter o 130 metr i gyfeiriad y dwyrain.

## ATODLEN 3

### TERFYN CYFLYMDER 30 MYA

- (i) Y darn hwnnw o slipffordd ymadael yr M4 tua'r dwyrain yng Nghyffordd 23a, o bwynt 140 metr i'r gorllewin o'r man lle mae'n cwrdd â'r system gylchu am bellter o 43 metr i gyfeiriad y dwyrain.

- (ii) Y darn hwnnw o slipffordd ymuno yr M4 tua'r gorllewin yng Nghyffordd 23a, o'r man lle mae'n ymadael â'r system gylchu am bellter o 53 metr.
- (iii) Y darn hwnnw o slipffordd ymadael yr M4 tua'r gorllewin yng Nghyffordd 23a, o bwynt 164 metr i'r dwyrain o'r man lle mae'n cwrdd â'r system gylchu am bellter o 60 metr i gyfeiriad y gorllewin.
- (iv) Y darn hwnnw o slipffordd ymuno yr M4 tua'r dwyrain yng Nghyffordd 23a, o'r man lle mae'n ymadael â'r system gylchu am bellter o 40 metr.
- (v) Y darn hwnnw o slipffordd ymadael yr M4 tua'r dwyrain yng Nghyffordd 25, o bwynt 100 metr i'r gorllewin o'r man lle mae'n cwrdd â'r system gylchu am bellter o 58 metr i gyfeiriad y dwyrain.
- (vi) Y darn hwnnw o slipffordd ymadael yr M48 tua'r gorllewin yng Nghyffordd 2, o bwynt 147 metr i'r dwyrain o'r man lle mae'n cwrdd â'r system gylchu am bellter o 50 metr i gyfeiriad y gorllewin.
- (vii) Y darn hwnnw o system gylchu Cyffordd 2 yr M48, o bwynt yn union ar ôl y man lle mae Ffordd Gyswllt Dyffryn Gwy tua'r de-ddwyrain yn cwrdd â'r system gylchu, yn glocwedd am bellter o 86 metr hyd at bwynt 21 metr i'r de o'r man lle mae'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain yn ymadael â'r system gylchu.
- (viii) Y darn hwnnw o slipffordd ymuno yr M48 tua'r dwyrain yng Nghyffordd 2, o'r man lle mae'n ymadael â'r system gylchu am bellter o 18 metr.
- (ix) Y darn hwnnw o gerbyttfordd yr A449 tua'r de, o bwynt 6 cilometr i'r gogledd o Gyffordd 24 yr M4 (Cylchfan Coldra) am bellter o 201 metr tua'r de hyd at bwynt 51 metr i'r gogledd o'r man lle mae'r gilfan tua'r de yn ymwahanu oddi wrth y brif gerbyttfordd tua'r de.
- (x) Y darn hwnnw o gerbyttfordd yr A40 tua'r gorllewin, o bwynt 598 metr i'r dwyrain o Gylchfan Gorllewin-o-Raglan yr A40 am bellter o 501 metr i gyfeiriad y gorllewin hyd at bwynt 97 metr i'r dwyrain o Gylchfan Gorllewin-o-Raglan yr A40.

## ATODLEN 4

### TERFYN CYFLYMDER 20 MYA

- (i) Y darn hwnnw o slipffordd ymadael yr M4 tua'r dwyrain yng Nghyffordd 23a, o bwynt 97 metr i'r gorllewin o'r man lle mae'n cwrdd â'r system gylchu am bellter o 97 metr i gyfeiriad y dwyrain.
- (ii) Y darn hwnnw o slipffordd ymuno yr M4 tua'r dwyrain yng Nghyffordd 23a, o'r man lle mae'r slipffordd ymuno tua'r dwyrain yn ymadael â'r system gylchu am bellter o 138 metr.
- (iii) Y darn hwnnw o slipffordd ymadael yr M4 tua'r gorllewin yng Nghyffordd 23a, o bwynt 104 metr i'r dwyrain o'r man lle mae'n cwrdd â'r system gylchu am bellter o 104 metr.
- (iv) Y darn hwnnw o slipffordd ymuno yr M4 tua'r gorllewin yng Nghyffordd 23a, o'r man lle mae'n ymadael â'r system gylchu am bellter o 128 metr.
- (v) Y darn hwnnw o slipffordd ymadael yr M4 tua'r dwyrain yng Nghyffordd 25, o bwynt 42 metr i'r gorllewin o'r man lle mae'n cwrdd â'r system gylchu am bellter o 42 metr.
- (vi) Y darn hwnnw o slipffordd ymuno yr M4 tua'r dwyrain yng Nghyffordd 25 o'r man lle mae'n ymadael â'r system gylchu am bellter o 136 metr.
- (vii) Y darn hwnnw o slipffordd ymadael yr M48 tua'r gorllewin yng Nghyffordd 2, o bwynt 97 metr i'r dwyrain o'r man lle mae'n cwrdd â'r system gylchu am bellter o 97 metr.
- (viii) Y darn hwnnw o slipffordd ymuno yr M48 tua'r gorllewin yng Nghyffordd 2 o'r man lle mae'n ymadael â'r system gylchu am bellter o 143 metr.
- (ix) Y darn hwnnw o system gylchu Cyffordd 2 yr M48, o bwynt 43 metr i'r de o'r man lle mae'r slipffordd ymadael tua'r dwyrain yn ymadael â'r system gylchu hyd at bwynt 41 metr i'r gogledd o'r man lle mae'r slipffordd ymuno tua'r gorllewin yn ymadael â'r system gylchu.
- (x) Y darn hwnnw o gerbyffordd yr A449 tua'r de, o bwynt 5.8 cilometr i'r gogledd o Gyffordd 24 yr M4 (Cylchfan Coldra) a 51 metr i'r gogledd o'r man lle mae'r gilfan tua'r de yn ymwahanu oddi wrth y brif gerbyffordd tua'r de, am bellter o 117 metr hyd at bwynt 2 metr i'r de o

- (xi) Hyd cyfan cilfan yr A449 tua'r de, sy'n ymwahanu oddi wrth y brif gerbyttfordd tua'r de, 5.7 cilometr i'r gogledd o Gyffordd 24 yr M4 (Cylchfan Coldra) hyd at y man lle mae'n ymgysylltu â'r brif gerbyttfordd tua'r de.
- (xii) Y darn hwnnw o gerbyttfordd yr A40 tua'r gorllewin o'r man lle mae'n ymadael â Chylchfan Gorllewin-o-Raglan yr A40 am bellter o 150 metr i gyfeiriad y gorllewin.
- (xiii) Y darn hwnnw o gerbyttfordd yr A40 tua'r dwyrain o'r man lle mae'n ymadael â Chylchfan Gorllewin-o-Raglan yr A40 am bellter o 17 metr i gyfeiriad y dwyrain.
- (xiv) Y darn hwnnw o gerbyttfordd yr A40 tua'r dwyrain o bwynt 17 metr i'r gorllewin o Gylchfan Gorllewin-o-Raglan yr A40 am bellter o 17 metr.
- (xv) Y darn hwnnw o gerbyttfordd yr A40 tua'r gorllewin o bwynt 97 metr i'r dwyrain o Gylchfan Gorllewin-o-Raglan yr A40 am bellter o 97 metr.
- (xvi) Hyd cyfan cerbyttfordd gylchredol Cylchfan Gorllewin-o-Raglan yr A40.